# IAITH CYNEFINOEDD

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau ymgysylltiol rydych yn eu cynnig. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd effeithiol o ddatblygu sgiliau cyfannol y dysgwyr (creadigrwydd ac arloesi, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Dylech ganolbwyntio ar pam mae dysgu'n bwysig a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybrau y gellid eu dilyn wrth fynd drwy'r gweithgaredd. Nid ydynt wedi'u bwriadu i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull gweithredu yn unol ag anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn enwi anifeiliaid a phlanhigion cyfarwydd ac yn ystyried sut mae gan y rhain enwau sy'n aml yn disgrifio sut maent yn edrych neu beth maent yn ei wneud. Maent yn cael eu cyflwyno i'r gwahanol enwau Cymraeg sydd ar y fwyalchen a phryf lludw ac yn gwneud ymchwil ar yr enwau a geir ar bryfed lludw, gan greu poster i ddangos eu canfyddiadau. Mae dysgwyr yn ystyried beth yw cynefin a sut y gellir eu rhoi mewn grwpiau, ac yn archwilio grwpiau o gynefinoedd yng nghaeau'r ysgol a'r ardal leol. Maent yn ymchwilio i'r anifeiliaid a'r planhigion sy'n byw yno ac yn creu posteri i ddangos eu canfyddiadau.

### CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o gymryd ffotograffau, e.e. ffonau clyfar, tabledi, camerâu, ac ati.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## BETH SYDD MEWN ENW?

I ddechrau, mae'r dysgwyr yn edrych ar ffotograffau o anifeiliaid a phlanhigion y gallent eu gweld yng nghaeau'r ysgol ac yn trafod beth yw eu henwau. Eglurwch wrth y dysgwyr fod gan anifeiliaid a phlanhigion enwau sy'n aml yn disgrifio sut olwg sydd arnynt neu beth maent yn ei wneud. Maent yn cael eu cyflwyno i'r gwahanol enwau Cymraeg ar y fwyalchen a'r pryf lludw.

Cyfeirnod defnyddiol ar gyfer enwau adar dwyieithog yw:
Welsh List 2026 – Welsh Ornithological Society (Saesneg yn unig).

Gwahoddir y dysgwyr i wneud ymchwil am yr enwau sydd ar bryfed lludw. Maent yn darganfod yr enwau lleol cyffredin sydd arnynt, canfod ym mhle mae'r enwau hyn yn cael eu defnyddio ac yn creu poster i ddangos eu canfyddiadau.

Gellir dod o hyd i wybodaeth gefndir ar ddolenni fel y rhain:

- Woodlouse, slater, or chucky pig? This insect has more than 250 names! - BBC Newsround (Saesneg yn unig)
- Slater or chucky pig? Survey charts different names for woodlice - BBC News (Saesneg yn unig)
- Pryf lludw - Wicipedia

Yn olaf, rhoddir gwybod i'r dysgwyr fod gan bob planhigyn ac anifail enwau Lladin, fel bod yr un enw'n cael ei ddefnyddio, ble bynnag yr ydych chi yn y byd.

Gellir cael rhagor o wybodaeth yn:

- Binomial nomenclature Facts for Kids - Kiddle (Saesneg yn unig)
- Carolus Linnaeus – Britannica Kids (Saesneg yn unig)

TASG 2

## ARCHWILIO CYNEFINOEDD

Eglurwch wrth y dysgwyr fod 'cynefin' yn golygu cartref neu amgylchedd naturiol anifail, planhigyn neu organeb arall, ac y gellir rhoi cynefinoedd mewn grwpiau. Er enghraifft, yng Nghymru, mae grwpiau o gynefinoedd sy'n cynnwys:

- glaswelltir
- rhostir a gweundir
- gwlyptir
- morol
- arfordirol
- tir amaethyddol
- dŵr croyw
- cynefinoedd creigiog
- trefi a gerddi
- coetir.

Mae dysgwyr yn paru ffotograffau o gynefinoedd gyda'u grŵp cynefin ac yn ystyried y grwpiau o gynefinoedd sydd yng nghaeau'r ysgol. Maent yn defnyddio map i archwilio'r grwpiau o gynefinoedd yn yr ardal leol ac yn gwneud ymchwil i ddarganfod mwy am y cynefinoedd o fewn un grŵp cynefin.

Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy'r ddolen hon: [Habitats - Wildlife Trusts Wales] (Saesneg yn unig).

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i ymweld â'r ardal leol i edrych ar gynefinoedd. Ar ôl darganfod y cynefinoedd sydd ar gael, gofynnwch i'r dysgwyr ddychwelyd yn ddiweddarach i ymchwilio i'r anifeiliaid a'r planhigion sy'n byw yno.

TASG 3

# DISGRIFIO CYNEFINOEDD LLEOL

Rhowch wybod i grwpiau o ddysgwyr eu bod yn mynd i greu posteri i ddangos yr anifeiliaid a'r planhigion sy'n byw mewn cynefinoedd lleol. Yn gyntaf, byddwch yn mynd â nhw allan i wneud asesiad bioamrywiaeth er mwyn darganfod beth sy'n byw ym mhob cynefin. Eglurwch y bydd angen iddynt:

- adnabod y planhigion a'r anifeiliaid maent yn eu canfod
- casglu tystiolaeth o blanhigion ac anifeiliaid er mwyn eu hadnabod yn nes ymlaen
- casglu tystiolaeth o arwyddion o fywyd pan nad ydynt yn gweld yr anifail.

Cyn mynd allan, anogwch y dysgwyr i ystyried beth y gallent ei ddarganfod, sut byddant yn adnabod y pethau hyn a chasglu tystiolaeth, a pha offer allai fod yn ddefnyddiol.

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i gasglu tystiolaeth o gymaint o wahanol fathau o blanhigion ac anifeiliaid ag y gallant ddod o hyd iddynt yn y cynefin. Ar ôl dychwelyd i'r dosbarth, gofynnwch iddynt ddefnyddio'r tabl a ddarparwyd i ddangos beth wnaethant ei ganfod.

Atgoffwch y dysgwyr eu bod wedi edrych ar y gwahanol enwau sydd ar anifeiliaid a phlanhigion, yn nhasg 1. Roedd rhai o'r rhain yn Saesneg, rhai yn Gymraeg a hefyd roedd enwau oedd yn lleol i'r ardal. Rhowch wybod iddynt y bydd eu posteri yn dangos yr enwau hyn ynghyd â lluniau o bob organeb.

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar rai enghreifftiau o bosteri a gafodd eu creu ar gyfer pedwar cynefin yn Sir Benfro, yna gwneud rhagor o ymchwil a chreu eu posteri eu hunain.

## Dolenni defnyddiol

Ar gyfer gwahanol safbwyntiau a datblygu syniadau'r dysgwyr, gallech ystyried y dolenni hyn ar gyfer pob Tirwedd Ddynodedig:

### Tirwedd Cenedlaethol Ynys Môn

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn – Cyngor Sir Ynys Môn

### Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Hafan - Bannau Brycheiniog

Tirweddau - Bannau Brycheiniog

### Tirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Tirwedd Cenedlaethol

Tirweddau a Bywyd Gwyllt - Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Tirwedd Cenedlaethol

### Parc Cenedlaethol Eryri

Parc Cenedlaethol Eryri

Tirweddau a Bywyd Gwyllt - Parc Cenedlaethol Eryri

### Tirwedd Cenedlaethol Gŵyr

Tirwedd Genedlaethol Gŵyr - Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol – Cyngor Abertawe

### Tirwedd Cenedlaethol Llŷn

Tirwedd Cenedlaethol Llŷn

### Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Arfordir Llawn Rhyfeddod - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

### Tirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy

Welcome to the Wye Valley National Landscape - The Wye Valley AONB (Saesneg yn unig)

## Gweithgareddau defnyddiol eraill ar Tirlun

Mae gweithgareddau eraill ar Tirlun sy'n ystyried cynefinoedd, gan gynnwys:

- Sut y gallwn ni warchod bioamrywiaeth?
- Beth yw'r ffyrdd gorau o deithio?
- Mewn perygl yn Nhirwedd Cenedlaethol Llŷn
- Mewn perygl yn Eryri
- Cronfeydd dŵr, argaeau a cholera
- Beth allwn ni ei weld yn y tywyllwch ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro?
- Beth allwn ni ei weld yn y tywyllwch ar Ynys Môn?

Gellir addasu'r rhain i gyd ar gyfer unrhyw leoliad.